







Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Llwybr Minffordd, Cader Idris

ANODD/LLAFURUS




Trosolwg o'r Daith

-  Pellter: 9km (5.6 milltir)
-  Hyd: 6 awr
-  Math o daith: Yno ac yn ôl


Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.


eryri.llyw.cymru




1
Ewch drwy'r giât mochyn ger y toiledau ym mhen pella'r maes parcio. Ewch i'r dde a dilyn y llwybr trwy giât fochyn arall. Parhewch heibio'r ganolfan ymwelwyr a thros y bont.




2
Ewch drwy giât fechan wrth waelod y grisiau. Ar ôl dringo yn serth, ewch drwy giât fechan arall mewn wal gerrig. Byddwch yn dod i ddiwedd y goedwig ac yn cyrraedd tir mynydd agored.




3
Ymhen oddeutu 200m, byddwch yn cyrraedd fforch. Cadwch i'r chwith yma gan gadw'r afon ar eich dde. Peidiwch â mynd dros y bont. Ymhen amser, byddwch yn pasio adfeilion ar eich chwith. Wrth i'r llwybr lefelu, daw clogwyni Craig Cau i'r golwg.




4
Wrth i'r tir lefelu, fe welwch ardal gorsiog o'ch blaen. Ewch i'r chwith o amgylch yr ardal yma. Dilynwch y llwybr i fyny'r allt nes i chi gyrraedd fforch yn y llwybr. Gwnewch yn siŵr wrth ddychwelyd eich bod yn dilyn yr un llwybr yn ôl.




5
Cadwch i'r chwith pan gyrraeddwch fforch yn y llwybr gan anelu am y copa. Mae'r llwybr i'r dde yn arwain am Llyn Cau.



6
Dilynwch y llwybr hyd nes i chi gyrraedd ardal gwastad fechan lle gallwch fwynhau golygfa o'r llyn a'r clogwyni. Parhewch i ddringo nes i chi gyrraedd y grib lle, ar ddiwrnod braf, bydd golygfeydd godidog i lawr am ganolbarth Cymru. Rydych chi wedi cyrraedd hanner ffordd yn fan hyn.



7
Mae'r llwybr wedi ei farcio'n glir â charneddau yn y fan yma ac yn ymdroelli'n serth i fyny heibio band o gerrig gwynion mewn craig ar eich dde. Bydd gwriadad byr oddi ar y llwybr i'r chwith yn rhoi golygfa dda i chi o ddyffryn Tal-y-llyn. Ymhen amser, bydd y llwybr yn lefelu cyn dechrau dringo yn serth ger hafn amlwg ar eich chwith.



8
Bydd y llwybr yn serth, rhydd ac yn diodde'n ddrwg o erydiad wrth i chi ddringo i gopa Craig Cau. Byddwch yn ofalus iawn yma, yn enwedig yn y gaeaf. Ewch dros y gamfa amlwg ar ffens ar gopa Craig Cau.



9
Dilynwch y llwybr ar hyd ymyl y clogwyni sy'n arwain yn serth lawr i Fwlch Cau. Ar y dde fe welwch rigol garegog peryglus a adnabyddir fel 'Ffos Bwlch Cau'. Mae'r rhigol yn arwain i lawr am Llyn Cau. Nodwch y man yma ar fel tironod ar eich ffordd yn ôl.



Mae'r llwybr nawr yn dringo'n serth am y tro olaf. Mae'r rhan hon yn llithrig, yn rhydd, ac yn dioddef o erydiad. Cadwch at y llwybr i atal yr erydiad rhag lledaenu. Dilynwch yr adran igam-ogam byr i'r copa.



Ymhen ychydig funudau o sgrialu, byddwch yn cyrraedd y copa. Mae cysgodfan yn agos i'r copa sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan Wasanaeth Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri.



Wrth i chi ddychwelyd o'r copa, dilynwch y llwybr heibio adfeilion gyda hen le tân. Tua 25m ar ôl y lle tân, mae'r llwybr yn fforchio. Cadwch i'r chwith yn fan hyn—mi aiff a'r llwybr ar y dde â chi i lawr ochr gogleddol y mynydd.